WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Wales Audit Office / Swyddfa Archwilio Cymru

24 Cathedral Road / Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 20 320500
Fax / Ffacs: 029 20 320600
Email / Ebost: wales@wao.gov.uk
www.wao.gov.uk

Stewart Greenwell
Prif Weithredwr Dros Dro
Cyngor Dinas Casnewydd
Swyddfeydd y Cyngor
Y Ganolfan Ddinesig
Casnewydd
NP20 4UR

| | |
|---|---|
| **Cyfeirnod** | 589A2012 |
| **Dyddiad** | 12 Rhagfyr 2012 |
| **Tudalennau** | **1** o **11** |

Annwyl Stewart

# Llythyr Asesiad Gwella

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi'r casgliadau allweddol sy'n codi o'm gwaith mewn perthynas ag adrodd ar welliannau o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur).

Mae gofyn i mi adrodd ar fy ngwaith archwilio ac asesu i bennu a gyflawnodd Cyngor Dinas Casnewydd (y Cyngor) ei ddyletswyddau a bodloni gofynion y Mesur.

Yn dilyn fy llythyr Asesiad Gwella ar 10 Hydref 2012, mae'r llythyr hwn yn crynhoi:

- fy sylwadau ar i ba raddau mae'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau statudol o ran adrodd am welliant;
- fy sylwadau, a sylwadau rheoleiddwyr perthnasol, ar i ba raddau y gellir dibynnu ar hunanwerthusiad y Cyngor;
- fy nghynigion pellach ar gyfer gwella a/neu argymhellion.

Byddaf hefyd yn gwneud gwaith manylach ar y trefniadau sy'n cefnogi dulliau rheoli perfformiad ac adrodd y Cyngor dros y misoedd nesaf.

Byddaf yn crynhoi fy holl waith a gwaith rheoleiddwyr perthnasol yn ystod 2012-13 ac yn cyhoeddi Adroddiad Gwella Blynyddol y Cyngor erbyn diwedd mis Mawrth 2013.

## Mae'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau adrodd ar welliant o dan y Mesur. Fodd bynnag, dylai sicrhau ei fod yn cydymffurfio mwy â chanllawiau Llywodraeth Cymru.

Rwyf wedi dod i'r casgliad hwn oherwydd:

- cyhoeddodd y Cyngor asesiad o'i berfformiad yn ystod 2011-12 yn ei Adolygiad Perfformiad Blynyddol ar 31 Hydref 2012;
- mae'r Adolygiad yn asesu perfformiad y Cyngor yn y flwyddyn ariannol flaenorol (2011-12) ac yn nodi sut y mae'r Cyngor wedi ceisio cyflawni ei ddyletswyddau o dan y Mesur;
- mae'r Adolygiad yn cynnwys manylion am berfformiad a chymariaethau fel y'u mesurir gan y dangosyddion perfformiad statudol cenedlaethol; ac
- mae'r Adolygiad yn cynnwys manylion am y ffyrdd y mae'r Cyngor wedi ceisio cydweithredu.

Fodd bynnag, mae angen i'r Cyngor gydymffurfio mwy â chanllawiau Llywodraeth Cymru drwy wneud y canlynol:

- gwerthuso ei lwyddiant o ran cyflawni ei amcanion gwella a mynegi ei farn yn eglur;
- defnyddio sylfaen dystiolaeth ehangach o wybodaeth i'w alluogi i asesu a yw wedi cyflawni ei amcanion gwella ai peidio;
- ymestyn y defnydd o wybodaeth gymharol yn cynnwys perfformiad hanesyddol a chymharu â chyrff eraill;
- sicrhau bod ei broses o asesu perfformiad mor hygyrch â phosibl i ddinasyddion a rhanddeiliaid; a
- mynd ati i geisio adborth a sylwadau ar ei Adolygiad Perfformiad gan ddinasyddion a chymunedau.

## Mae'r Cyngor yn cydnabod bod ei brosesau hunanwerthuso perfformiad wedi bod yn wan, yn dameidiog ac yn anghyson. Nid oeddynt yn llwyr gefnogi gwelliant nac yn galluogi'r Cyngor i arddangos a gyflawnwyd yr amcanion gwella

### Nid oedd adolygiad y Cyngor yn arddangos a yw wedi cyflawni ei amcanion gwella a gwella canlyniadau i ddinasyddion

Nid yw'r Cyngor wedi cynnal gwerthusiad effeithiol o'i berfformiad mewn perthynas â chyflawni ei amcanion gwella (Atodiad 1), na gwneud y broses yn hawdd i ddinasyddion ei defnyddio. Mae sylfaen dystiolaeth y Cyngor yn gyfyngedig. Nid yw wedi gwneud defnydd effeithiol o'r dystiolaeth sydd ganddo, ac sy'n cael ei defnyddio gan y gwasanaethau, i werthuso ei berfformiad a'i gynnydd. Yn ogystal â phrinder amcanion gwella wedi'u mynegi'n eglur, cyfyngodd hyn ar allu'r Cyngor i arddangos ble mae ei

berfformiad wedi gwella a ble mae wedi dirywio, a yw wedi cyflawni ei amcanion gwella, ac a yw dinasyddion ar eu hennill.

Nid yw'r Adolygiad a gyhoeddwyd gan y Cyngor yn cynnwys datganiad clir i nodi a yw'n ystyried ei fod wedi llwyddo i gyflawni ei amcanion gwella. Dim ond darparu diweddariad o'r camau gweithredu a nodwyd yng Nghynllun Gwella'r Cyngor ar gyfer 2011-12 y mae'r Adolygiad heb esboniad ynglŷn â sut y mae'r camau gweithredu wedi cyfrannu at gyflawni'r amcanion gwella. Ychydig o'r mesurau perfformiad sy'n uniongyrchol gysylltiedig â phob cam gweithredu ac er bod rhai 'prif ddangosyddion poblogaeth' ar gyfer pob amcan gwella, ni cheir sylwadau i nodi a yw perfformiad y Cyngor yn 2011-12 yn arddangos gwelliant neu ddirywiad.

Mae gan y Cyngor 23 'prif ddangosydd poblogaeth' penodol ar gyfer y naw amcan gwella ond dim ond 22 ohonynt sydd wedi'u cofnodi. Nid yw un o'r dangosyddion hyn yn rhoi gwybodaeth ar gyfer 2011-12 ac mae un arall yn cynnwys data nad oes modd ei gymharu'n uniongyrchol â'i linell sylfaen wreiddiol. Gan nad oes targedau wedi'u cynnwys ar gyfer 2011-12, mae ein dadansoddiad o'r 20 prif ddangosydd o'u cymharu â ffigurau llinell sylfaen cyfnodau amrywiol o amser yn dynodi fod 12 (60 y cant) o'r mesurau'n dangos gwelliant mewn perfformiad ac wyth (30 y cant ) o'r mesurau'n dangos dirywiad mewn perfformiad. Mae'r mesurau sy'n gysylltiedig ag amcanion gwella 'Delwedd Gadarnhaol' ac 'Addysg Ardderchog i Bawb' yn dangos eu bod i gyd wedi gwella yn 2011-12 ond mae rhai mesurau sy'n ymwneud â'r amcanion gwella eraill yn dangos dirywiad mewn perfformiad.

Yn eu gwerthusiad o'u perfformiad, mae Llywodraeth Cymru yn annog cynghorau i gynnwys canlyniadau adolygiadau gan gymheiriaid, asesiadau craffu a ffynonellau eraill o wybodaeth fwy ansoddol, megis arolygon o fodlonrwydd cwsmeriaid a data meincnodi. Mae'r Cyngor wedi defnyddio 'basged' gyfyngedig o dystiolaeth yn ei Adolygiad sy'n golygu nad yw'n rhoi darlun llawn o'i berfformiad na'i welliant. Er bod y Cyngor yn datgan ei fod yn defnyddio dull o reoli perfformiad sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau (Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau neu RBA), nid yw'r mesurau y cyfeirir atynt yn yr Adolygiad yn canolbwyntio digon ar ganlyniadau ar hyn o bryd. Mae'r Cyngor wedi rhoi gwybod i ni fod y dull yn cael ei ddatblygu a bydd yn sylfaen i'w raglen wella ar gyfer 2013-14.

Er enghraifft, o ran mesur llwyddiant i gyflawni'r amcan gwella 'Canol Dinas Fywiog' ceir dau 'brif ddangosydd poblogaeth': pêl-droed a chystadleurwydd canol dinas. Er bod y ddau ddangosydd wedi'u cynnwys mewn tabl ar waelod y disgrifiad naratif, ni cheir esboniad ynglŷn â'r hyn y mae'r ffigurau i fod i ddangos. Caiff y darllenydd ei adael i ddod i'w gasgliadau ei hun ynglŷn ag a yw perfformiad yn gwella ai peidio ac a yw'r Cyngor wedi cyflawni ei amcan gwella. Nid yw'r targedau/rhagolygon ar gyfer y ddau ddangosydd, a ddylai fynegi beth oedd y Cyngor yn ceisio'i gyflawni yn 2011-12, wedi'u cynnwys. Mae'n anodd pennu felly a yw perfformiad wedi gwella yn unol â disgwyliadau. Er mwyn asesu perfformiad fel y'i mesurir gan y dangosyddion hyn, byddai'n rhaid i'r

darllenydd ddarllen Cynllun Gwella 2011-12 hefyd a dehongli beth oedd y rhagolwg/targed ar gyfer 2011-12 o'r graffiau.

Mae adran ar wahân o'r Adolygiad yn cynnwys pob un o'r 24 Dangosydd Strategol Cenedlaethol (NSI) fel sy'n ofynnol o dan y Mesur. Mae pob dangosydd yn cynnwys gwybodaeth am berfformiad gwirioneddol y Cyngor yn 2010-11 a 2011-12, ei dargedau ar gyfer 2011-12, a pherfformiad cyfartalog Cymru ar gyfer 2011-12. Ceir cod lliw coch, melyn neu wyrdd ar gyfer y dangosyddion ond ni cheir esboniad o'r hyn y mae'r cod lliw'n ei olygu. Ni cheir sylwadau i egluro beth mae'r dangosyddion yn ei olygu neu'r hyn y gellir ei ddehongli wrthynt, gan gynnwys a ydynt yn cynrychioli gwelliant neu ddirywiad mewn perfformiad a beth sy'n mynd i gael ei wneud i wella os yn briodol. Unwaith eto, caiff y darllenydd ei adael i ffurfio'i farn ei hun ynglŷn ag a yw perfformiad yn gwella ai peidio.

O'r 41 dangosydd perfformiad yn yr Adolygiad, mae modd cymharu 40 ohonynt â'r flwyddyn flaenorol. O'r 40, mae 24 (60 y cant) yn dangos gwelliant mewn perfformiad yn 2011-12 o gymharu â'r flwyddyn cynt, ac mae 16 (40 y cant) yn dangos dirywiad mewn perfformiad. Mae targedau ar gyfer 2011-12 gan 36 o'r dangosyddion, ac mae 18 o'r rhain (50 y cant) yn dangos na chyrhaeddodd y Cyngor y targedau a osododd i'w hun. Ni cheir unrhyw gymhariaeth ystyrlon o berfformiad drwy ddefnyddio'r NSIs i ddatgelu sut y mae'r Cyngor yn perfformio o gymharu â chynghorau eraill Cymru.

Nodais yn flaenorol yn fy llythyr Asesiad Gwella ym mis Hydref fod gan y Cyngor drefniadau effeithiol ar waith i gasglu, cofnodi a monitro dangosyddion perfformiad. Fodd bynnag, mae ein dadansoddiad o'r dangosyddion perfformiad sydd wedi'u cynnwys yn yr Adolygiad yn dangos fod pump ohonynt wedi'u camddyfynnu.

Roedd yr Adolygiad ar gael, yn Saesneg, y dudalen 'Performance' ar wefan y Cyngor ar 31 Hydref 2012. Fodd bynnag, nid yw'n hawdd dod o hyd iddo. Ni chafwyd datganiad i'r wasg i gyd-fynd â'r Adolygiad na phennawd i'w hyrwyddo ar hafan gwefan y Cyngor ac felly roedd angen gwybodaeth ynglŷn â ble i edrych amdano ar y wefan. Nid oes unrhyw gopïau caled yn cael eu cynhyrchu ac ni cheir gwybodaeth yn y ddogfen ynglŷn â sut y gall dinasyddion ddod o hyd i fformatau gwahanol, er enghraifft fersiwn Gymraeg neu brint bras, na sylwadau adborth.

**Mae'r Cyngor yn cydnabod bod ei brosesau hunanwerthuso perfformiad wedi bod yn dameidiog ac wedi rhwystro'r Cyngor rhag bwrw iddi'n effeithiol i reoli, gwerthuso, adrodd ar berfformiad a'i wella**

Mae adroddiadau darniog, anghysondeb rhwng gwybodaeth sydd ar gael o fewn y meysydd gwasanaeth a'r hyn sy'n cael ei ddefnyddio'n gorfforaethol, gwendidau wrth gynllunio gwasanaethau a datblygu camau gweithredu a dulliau o fesur amcanion gwella wedi llesteirio cryn dipyn ar waith y Cyngor rhag gallu bwrw iddi'n effeithiol i reoli, adrodd ar, gwerthuso a gwella perfformiad. Fel y noda'i Adolygiad, mae'r gyfran gynyddol o fesurau perfformiad gwasanaeth sydd wedi dirywio dros y tair blynedd diwethaf, o'u

cyfuno â'r gwendidau hyn, yn creu risgiau a heriau sylweddol i'r Cyngor. Mae wedi cydnabod yr angen i fynd i'r afael â'r gwendidau a dechrau newid y ffordd y mae'n adrodd ar ddata perfformiad er mwyn rheoli perfformiad yn well ar draws y Cyngor.

Gwneuthum nifer o gynigion ar gyfer gwella o'r blaen mewn perthynas â threfniadau rheoli perfformiad (gweler Atodiad 2). Yn fy llythyr Asesiad Gwella ym mis Hydref, nodais fod y Cyngor yn cydnabod, ymhlith materion eraill, fod angen gwella atebolrwydd a threfniadau rheoli perfformiad, a'i fod yn mynd i gynnal adolygiad sylfaenol o'i gynlluniau gwasanaethau a'i brosesau cynllunio busnes. Mae'r Cyngor yn datgan ei fod wedi ymrwymo i gryfhau ei drefniadau rheoli perfformiad drwy ei Fwrdd Perfformiad drwy sicrhau fod atebolrwydd dros gyflawni gwelliant, trawsnewid ac effeithlonrwydd yn eglur ar draws y sefydliad. Fodd bynnag, nid yw'r Cyngor eto wedi egluro pwy fydd â'r cyfrifoldeb strategol dros reoli perfformiad o fewn ei strwythur rheoli newydd. Mae'r diffyg eglurder hwn yn llesteirio mwy fyth ar allu'r Cyngor i gryfhau ei drefniadau rheoli perfformiad a gwerthuso er mwyn hyrwyddo gwelliant. Byddaf yn parhau i fonitro'r ffordd y mae'r Cyngor yn datblygu ei ddull o reoli perfformiad.

Isod, rwyf wedi tanlinellu prif ganfyddiadau fy ngwaith diweddar y dylai'r Cyngor eu hystyried wrth gynnal ei adolygiad sylfaenol o gynlluniau gwasanaethau a phrosesau cynllunio busnes a datblygu ei ddull o reoli perfformiad.

**Cynlluniau Gwasanaethau.** Mae gofyn i bob gwasanaeth gynhyrchu cynllun gwasanaeth ar ddechrau pob blwyddyn ariannol. Rhaid i'r gwasanaethau adrodd ar eu cynnwys ond mae nifer o gynlluniau'n methu â chynnwys digon o fesurau sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau i arddangos effaith a chanlyniadau i ddefnyddwyr. Nid yw'r gwasanaethau'n perchenogi amcanion gwella am nad yw'r cynlluniau gwasanaethau'n adlewyrchu'n eglur pa amcanion penodol sy'n berthnasol iddynt. Golyga hyn nad yw ei gynlluniau gwasanaethau presennol yn helpu'r Cyngor i fonitro a gwerthuso'r modd y mae ei amcanion gwella yn cael eu cyflawni.

Caiff y cynlluniau gwasanaethau eu cyflwyno i'r pwyllgor trosolwg a chraffu perthnasol a'u hadolygu bob chwe mis. Mae ein harchwiliad o ddetholiad o adolygiadau o gynlluniau gwasanaethau wedi dangos nifer o wendidau:

- nid yw'r adroddiadau eglurhaol i'r pwyllgor craffu yn adlewyrchu amcanion gwella'r Cyngor, ond maent yn cynnwys amcanion gwahanol[1];

---

[1] Gwneud ein dinas yn lle gwell i fyw ynddo i bob un o'n dinasyddion, Gwneud yr hyn a wnawn yn dda, Gweithio'n galed i ddarparu'r hyn y mae ein dinasyddion yn ei ddweud wrthym sydd ei angen arnynt.


- mae'r broses adrodd yn canolbwyntio ar faint y gweithgarwch (hy, faint rydyn ni wedi'i wneud) yn hytrach nag effaith y gweithgarwch o ran creu canlyniadau i ddinasyddion (hy, a oes unrhyw un ar ei ennill);
- mae'r mesurau perfformiad yn annigonol ar gyfer gwerthuso gwelliant neu gynnydd o ran cyflawni amcanion gwella'r Cyngor; ac
- ychydig o feincnodi a chymharu a wneir, ac yn fwy arwyddocaol, ni cheir gwerthusiad cyffredinol ar gyfer barnu pa mor dda y mae'r gwasanaeth wedi perfformio.

Oherwydd y gwendidau yn fformat, strwythur, cynnwys a threfniadau adrodd rhai cynlluniau gwasanaethau, mae'n anodd gweld sut y gall pwyllgorau craffu herio'r cynlluniau'n effeithiol neu ddeall pa mor dda mae'r Cyngor yn gwella gwasanaethau ac yn cyflawni ei amcanion gwella.

**Adrodd ar Berfformiad**. Caiff ystod eang o wybodaeth am berfformiad a gwybodaeth ddefnyddiol arall ei chasglu a'i defnyddio o fewn y meysydd gwasanaeth a'u hadrodd ar sawl gwahanol lefel yn y broses reoli o fewn y sefydliad yn ogystal ag i Aelodau. Fodd bynnag, golygodd gwendidau yn y broses o ddethol a chyflwyno'r wybodaeth hon na allai'r Cyngor werthuso'r wybodaeth hon yn effeithiol na'i defnyddio'n hawdd i ffurfio barn ynglŷn â sut oedd y Cyngor yn ei gyfanrwydd yn perfformio ac yn cyflawni ei amcanion gwella. Mae diffyg cysylltiad wedi bod rhwng y wybodaeth a oedd ar gael yn y meysydd gwasanaeth i allu barnu pa mor dda yr oeddynt yn cyflawni a'r wybodaeth sy'n cael ei defnyddio a'i hadrodd yn gorfforaethol i wneud asesiad o berfformiad ar draws y Cyngor.

Cyflwynir adroddiadau ar berfformiad, fel y'i mesurir gan ddangosyddion, i'r Bwrdd Perfformiad bob chwarter yn ogystal ag ar ddiwedd blwyddyn ond ni chânt eu strwythuro o amgylch yr amcanion gwella. Mae hyn wedi'i gwneud yn anodd i Aelodau werthuso sut y mae'r Cyngor yn perfformio mewn perthynas â'i amcanion gwella. Derbyniodd y Bwrdd Perfformiad y dadansoddiad o ddangosyddion perfformiad ar gyfer 2011-12 ym mis Tachwedd 2012. Mae'r Cyngor yn datgan yn glir mai ei nod cyffredinol yw sicrhau gwelliant parhaus ym mhob dim a wna drwy wneud newidiadau cynyddol a darbodus i'r ffordd y mae'n cynllunio ac yn cyflwyno gwasanaethau ac yn cynnal ei fusnes. Fodd bynnag, dengys dadansoddiad o'r 161 mesur perfformiad fod perfformiad y Cyngor yn y meysydd hyn wedi dirywio dros y tair blynedd diwethaf:

Ffigur 1: Dadansoddiad o fesurau perfformiad o gymharu â’r flwyddyn flaenorol, targed canol blwyddyn a chyfartaledd Cymru ar gyfer 2009-10, 2010-11 a 2011-12




Mae’r Tîm Cyfarwyddwyr Corfforaethol yn derbyn diweddariadau misol ar berfformiad. Ers 2011-12 mae fformat adroddiadau wedi esblygu i geisio nodi mesurau allweddol sydd angen eu monitro’n fwy trylwyr, naill ai am eu bod yn cael eu hystyried yn ddangosyddion allweddol neu am nad oeddynt yn cyrraedd y targed. Fel adroddiadau perfformiad eraill y Cyngor, nid yw’r adroddiadau i’r Tîm Cyfarwyddwyr Corfforaethol yn mesur cynnydd yn erbyn ei amcanion gwella. Hefyd, derbyniodd y Tîm Cyfarwyddwyr Corfforaethol adroddiad diwedd blwyddyn ar *Ein Cyngor - Ein Dinas* a oedd yn cynnwys crynodeb lefel uchel o gamau gweithredu, ynghyd â pherfformiad yn erbyn 20 o’r 23 mesur sy’n ymwneud â’i amcanion gwella. Mae’r adroddiad hwn yn cynnwys y data perfformiad mwyaf cyfredol ar gyfer 2011-12 ond nid yw’n cynnwys targedau cyfatebol ar gyfer 2011-12, gan ei gwneud yn anodd asesu cynnydd yn ddibynadwy.

Yn y gorffennol, byddai’r Cabinet yn derbyn diweddariadau chwarterol ar y camau allweddol a oedd yn gysylltiedig â’r amcanion gwella yn *Ein Cyngor - Ein Dinas*. Prif wendid y trefniadau hyn oedd mai dim ond diweddariad naratif o’r camau gweithredu oeddynt. Nid oedd y diweddariadau’n cynnwys unrhyw wybodaeth am berfformiad fel y’i mesurwyd gan ddangosyddion neu dystiolaeth arall, ac ni cheir gwerthusiad cyffredinol o’r cynnydd sy’n cael ei wneud ar gyflawni’r amcanion gwella. Ym mis Tachwedd 2012,

newidiodd y Cyngor y ffordd y mae'n adrodd i'r Cabinet ar gynnydd yn erbyn ei Gynllun Gwella 2012-13. Bellach, mae adroddiadau'n cynnwys dangosyddion perfformiad yn ogystal â dynodiad o'r hyn a fydd wedi'i gyflawni ar ddiwedd blwyddyn ac a yw'n gwneud cynnydd amserol tuag at hynny.

Nid oedd y swyddogion cyfrifol ac Aelodau Cabinet a enwebwyd ar gyfer pob amcan gwella yn rhan o'r broses o gytuno ar yr adran sy'n ymwneud â'u hamcan gwella yn yr Adolygiad. Mae atebolrwydd a pherchnogaeth dros adrodd ar welliant ac yn bwysicach, dros werthuso cynnydd ar welliant, yn aneglur.

## Adolygiad a Gwerthusiad o Berfformiad Blynyddol Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru 2011-12

Roedd adroddiad Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ym mis Hydref 2012 yn nodi bod: 'adroddiad y Cyfarwyddwr yn fanwl ac yn gosod cyflawniadau'r Cyngor a'r meysydd blaenoriaeth ar gyfer datblygu o fewn cyd-destun lleol a chenedlaethol clir. Mae'r Cyfarwyddwr yn cydnabod meysydd heriol ar gyfer cyflawni amcanion yn ogystal â meysydd lle gwnaed cynnydd eisoes. Roedd y dystiolaeth a ddarparwyd gan y Cyngor i gefnogi'r gwerthusiad yn fanwl a chyflwynodd dystiolaeth ychwanegol pan ofynnwyd iddo wneud hynny. Fodd bynnag, gellir gwneud rhagor i ddatblygu'r dadansoddiad o'r camau gweithredu a roddwyd ar waith, neu effaith y gwasanaethau a ddarparwyd, er mwyn tanlinellu canlyniadau i unigolion a theuluoedd. Mae hyn yn wir am lawer o awdurdodau lleol ledled Cymru.'

## Cynigion pellach ar gyfer gwella

Ceir rhai cynigion newydd ar gyfer gwella yn y llythyr hwn. Byddwn yn parhau i fonitro ac adrodd ar y cynnydd a wneir gan y Cyngor mewn perthynas â gweithredu'r cynigion a nodwyd yn fy adroddiadau a'm llythyrau blaenorol.

**Cynigion ar gyfer gwella**

C1 Dylai'r Cyngor sicrhau ei fod yn cydymffurfio'n fwy â chanllawiau Llywodraeth Cymru drwy wneud y canlynol:

- gwerthuso ei lwyddiant o ran cyflawni ei amcanion gwella a mynegi ei farn yn eglur;
- defnyddio sylfaen dystiolaeth ehangach o wybodaeth i'w alluogi i asesu a yw wedi cyflawni ei amcanion gwella ai peidio;
- ymestyn y defnydd o wybodaeth gymharol yn cynnwys perfformiad hanesyddol a chymharu â chyrff eraill;
- sicrhau bod ei broses o asesu perfformiad mor hygyrch â phosibl i ddinasyddion a rhanddeiliaid; a
- mynd ati i geisio adborth a sylwadau ar ei Adolygiad Perfformiad gan ddinasyddion a chymunedau

C2 **Rheoli Perfformiad**

Dylai'r Cyngor:

- egluro cyfrifoldebau strategol dros reoli perfformiad o fewn ei strwythur rheoli newydd; a
- chyflawni trefniadau corfforaethol mwy cydgysylltiedig/cydlynol a chadarn ar gyfer rheoli, adrodd ar, gwerthuso a gwella perfformiad.

# Atodiad 1

| **Ein Cyngor Ein Dinas – Amcanion Gwella 2011-12** |
|---|
| **Teimlo'n Dda am Gasnewydd** |
| 1. Canol Dinas Fywiog<br>2. Mwy o Fusnesau, Mwy o Swyddi<br>3. Addysg Ardderchog i Bawb<br>4. Dinas Ddiogel ac Iach<br>5. Delwedd Gadarnhaol ar gyfer y Ddinas<br>6. Cysylltiadau Trafnidiaeth Da |
| **Addas i'r dyfodol** |
| 7. Cwsmeriaid<br>8. Perfformiad<br>9. Chi |

# Atodiad 2

| **Cynigion ar gyfer gwella** | **Statws ym mis Hydref 2012** |
|---|---|
| **Asesiad Corfforaethol Cychwynnol, Gorffennaf 2010** | |
| 1. Mireinio a datblygu trefniadau o ran gwybodaeth am berfformiad i nodi manteision gweithgareddau'r Cyngor a'i bartneriaid o ran canlyniadau ar gyfer dinasyddion a chymunedau. | **Statws: ar y gweill ac mae'r cynnig yn parhau'n agored** |
| **Adroddiad Gwella Blynyddol, Ionawr 2011** | |
| 7. Pennu blaenoriaethau clir ar gyfer gweithredu yng nghyd-destun y gostyngiad yn yr adnoddau sydd ar gael. | **Statws: ar y gweill ac mae'r cynnig yn parhau'n agored** |
| 8. Pennu mesurau canlyniadau sy'n galluogi'r Cyngor i nodi effaith ei weithgarwch ar y gymuned a defnyddwyr gwasanaethau. | **Statws: ar y gweill ac mae'r cynnig yn parhau'n agored** |
| 10. Sicrhau bod cynlluniau busnes y gwasanaethau'n cynnwys amcangyfrifon realistig o'r adnoddau ariannol, staff ac adnoddau eraill sydd eu hangen i gyflawni gwaith arfaethedig. | **Statws: ar y gweill ac mae'r cynnig yn parhau'n agored** |

| Cynigion ar gyfer gwella | Statws ym mis Hydref 2012 |
| --- | --- |
| **Llythyr Diweddaru Asesiad Corfforaethol, Medi 2011** | |
| 12. Cryfhau dealltwriaeth rheolwyr fel bod cynlluniau gwasanaethau ar gyfer 2012-13 yn gyson yn nodi mesurau eglur sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau er mwyn cyflawni amcanion y cynllun gwella. | **Statws: ar y gweill ac mae'r cynnig yn parhau'n agored** |

Yn gywir



HUW VAUGHAN THOMAS

ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU

Copi: Carl Sargeant, Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau